Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Adran 6/7

# Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2025-31

# Cynnwys

Rhagair ..... 3
Pwrpas ..... 4
Cwmpas ..... 4
Cyflwyniad a Chyd-destun ..... 4
Dyletswyddau a Chyfrifoldebau ..... 6
Cefnogaeth ac ymgynghori. ..... 7
Adolygiad o Rywogaethau a Chynefinoedd: ..... 7
Amcanion ..... 8
Amcanion ..... 8
Cyfeiriadau: ..... 9

# Rhagair

Wrth i ni gyflawni strategaeth ein Bwrdd Iechyd ar gyfer Powys Iach a Gofalgar, mae mor bwysig ag erioed i fesur, dadansoddi a lleihau effeithiau GIG Powys ar fioamrywiaeth yn ein hardaloedd gweithredu.

Rydym wedi gweld y newid mwyaf i'n bywydau beunyddiol yn ein cof gweithredol yn ystod pandemig Covid-19, ac eto mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gyflawni yn erbyn ei amcan i ddiogelu'r amgylchedd a gweithredu fel ceidwad amgylcheddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y 'cyfnod clo' cyntaf ledled y wlad ym mis Mawrth 2020 yn sioc i bawb, ond rhoddodd gyfle i bobl Cymru ymgolli yn eu natur leol, a gwerthfawrogi ei phwysigrwydd iddynt, gan roi cyfle i fyd natur ymlacio ac ehangu ei ystod, boed hynny dros dro.

Nawr, yn 2025, gwelwn fod ein hymgyrch barhaus am gynnydd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn parhau i effeithio'n anghymesur ar natur. Mae Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 yn nodi dirywiad bioamrywiaeth yn y DU ac mae'n bod y 'DU yn un o'r gwledydd sy'n disbyddu natur fwyaf yn y byd ar y Ddaear' *cyflwr natur 2023.*

Er gwaethaf hyn, mae gobaith o hyd am newid cadarnhaol ac ystyrlon: Yn 2022 cytunodd Cynhadledd Bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (COP15) set o dargedau i leihau niwed i natur yn sylweddol. Yn 2023, fe drosglwyddwyd hyn yn bolisi domestig gyda llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ddiogelu 30% o dir ar gyfer adfer natur erbyn 2030 (30 erbyn 30).

Yn 2024, datblygodd Llywodraeth Cymru bapur gwyn i ymgorffori cynllun bioamrywiaeth y Cenhedloedd Unedig (*Keping Ma, 2023)* mewn deddfwriaeth, gan sefydlu 5 'Egwyddor Amgylcheddol' i amddiffyn ein hasedau naturiol, ac i sicrhau bod pobl, busnesau, sefydliadau ac asiantaethau'r llywodraeth yn dwyn atebolrwydd.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn parhau i gefnogi cynaliadwyedd fel prif egwyddor drefniadol. Adlewyrchir pwysigrwydd agenda'r amgylchedd fel edau aur ar draws y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2023-26. Mae'r CTCI hefyd yn cefnogi ymdrechion y Bwrdd Iechyd i wreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio.

Fel ffordd o sicrhau cydymffurfiaeth amgylcheddol a llywodraethu da, mae'r bwrdd iechyd yn parhau i gefnogi ei System Rheoli Amgylchedd ardystiedig ISO14001.

Hyd yma, mae'r sefydliad wedi cymryd camau da tuag at gyflawni ei gynllun



**Wayne Tannahill-**
Cyfarwyddwr Cyswllt Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau

gweithredu bioamrywiaeth. Mae'n bryd nawr adolygu ein cynlluniau i sicrhau bod gweithredu bioamrywiaeth BIAP yn unol â pholisi cenedlaethol a lleol, gan sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi'r agenda adfer natur yng Nghymru.

# Pwrpas

Cyfleu'r ymrwymiad yn ogystal ag amcanion a nodau i staff, rhanddeiliaid a'r cyhoedd ynghylch cynefinoedd a diogelu a gwella rhywogaethau.

# Cwmpas

Yr holl dir sy'n eiddo a dan reolaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

# Cyflwyniad a Chyd-destun

Dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ymarfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Yn unol â'r Ddeddf, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn cynnal Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth sy'n rhan o system rheoli amgylchedd BIAP sydd wedi'i hachredu i ISO14001 (2015). Mae'r safon hon yn sicrhau bod rheolaeth amgylcheddol gadarn a thryloyw wrth wraidd ei fusnes.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles tua 133,000 o bobl sy'n byw ym Mhowys. Mae Powys yn cwmpasu chwarter o dirfas Cymru, ond gyda dim ond 5% o boblogaeth y wlad, mae'n ei gwneud y sir gyda'r boblogaeth fwyaf ar led yng Nghymru a Lloegr.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy naw ysbyty cymunedol a deg safle clinig. Mae'r ystâd yn gorchuddio arwynebedd tir o 36 hectar ac er nad oes gan rai lleoliadau lawer o le gwyrdd i wella bioamrywiaeth, mae rhai, fel Ysbyty Cymunedol Bronllys, yn bennaf yn fannau gwyrdd gyda lle sylweddol i gefnogi diogelu a gwella bioamrywiaeth. Serch hynny, mae'r sefydliad yn deall pwysigrwydd ymdrech i gynlluniau bioamrywiaeth ar raddfa fawr a bach gan y bydd agregu'r enillion ymylol yn cyfrannu at gyfoethogi bioamrywiaeth yn gyffredinol ledled Cymru.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi ymrwymo i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac mae'n cydnabod yr angen brys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd drwy leihau ei allyriadau $CO_2$e, gan sicrhau bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith ar yr un pryd i addasu i amgylchedd sy'n newid. Atgyfnerthwyd y rheidrwydd hwn ar gyfer newid gan ddatganiad Llywodraeth Cymru o 'argyfwng hinsawdd' yn 2019.

Ym mis Medi 2021 cafodd Datganiad Polisi Amgylchedd diwygiedig ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gan y Bwrdd. Mae cyhoeddi Datganiad Polisi'r Amgylchedd yn rhan allweddol o fynegi'n

gyhoeddus ymrwymiad y Bwrdd i weithredu er mwyn hyrwyddo'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Mae'n ceisio galluogi dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar weithredu trwy fod yn agored a thryloyw.

Mae BIAP yn aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n adrodd yn flynyddol ar amcanion lles. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae wedi gwneud y ddeddf yr edau aur ledled y sefydliad. Gallwch ddarllen mwy am weithredoedd ac ymateb y sefydliad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ein Hadroddiad Blynyddol, Cyfrifon Blynyddol a Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn https://biap.gig.cymru/amdanom-ni/dogfennau-allweddol/adroddiadau-blynyddol-cyfrifon-blynyddol-a-datganiadau-ansawdd-blynyddol/



# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

Dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys yr holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau) geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth sy'n gyson ag ymarfer eu swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cadernid ecosystemau. Rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cadernid ecosystemau, yn enwedig yr agweddau canlynol: (a) amrywiaeth rhwng ecosystemau a thu fewn iddynt; (b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau; (c) maint ecosystemau; (ch) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); (d) gallu ecosystemau i addasu.

Yn unol ag ymrwymiadau adran 6, mae BIAP yn ceisio cynnwys materion bioamrywiaeth ym mhob rhan o'i weithrediadau, yn enwedig cyn gynted â phosibl yn ei raglen gwariant cyfalaf. Mae hyn yn ein galluogi ni i wneud y mwyaf o effaith newid i wella cynefin bioamrywiaeth a'i ehangu. Yn ogystal, mae'r sefydliad yn ceisio cyfyngu ar yr effaith negyddol ar ecosystemau o ganlyniad i'w gweithrediadau trwy:

- Rheoli adeiladau
- Caffael
- Cynaliadwyedd
- Codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant
- Rheoli tir i gynnal a gwella bioamrywiaeth, a hyrwyddo cadernid ecosystemau.

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth hwn i ddiogelu a gwella rhywogaethau a chynefinoedd o fewn ein rheolaeth, er mwynhad y cyhoedd ac fel gwerth cynhenid i natur.

Wrth wraidd y cynllun gweithredu bioamrywiaeth mae'r gydnabyddiaeth y gall sefydliad gael effaith gadarnhaol a negyddol ar fioamrywiaeth. Mae'n dangos yr uchelgais i roi’r pwysau ffodd bynnag o blaid natur. Ar adeg pan fo llawer o'n sylw yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd a'r angen i dorri allyriadau carbon, camgymeriad difrifol fyddai anwybyddu'r rôl y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae wrth reoli hinsawdd.

# Llywodraethu

Mae **Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd** (GAC) y Bwrdd Iechyd yn atebol i'r Grŵp Amgylcheddau Arloesol gweithredol ac yn darparu cyfeiriad strategol i weithredu dull strwythuredig o ymdrin â chynaliadwyedd. Mae'r GAC yn llywyddu meysydd lle mae'r Bwrdd Iechyd yn cael effaith fawr ar yr amgylchedd ac yn hyrwyddo cysondeb a thryloywder wrth reoli materion amgylcheddol ar draws y Bwrdd Iechyd a rheoli o ddydd i ddydd. Trwy sicrhau gwelliant parhaus ac ardystio System Rheoli Amgylcheddol (SRhA) y Bwrdd Iechyd, a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn cyflawni tair egwyddor allweddol Datblygu Cynaliadwy:

1) Yr Amgylchedd

2) Yr Economi

3) Y Gymdeithas

Mae'r Grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn parhau i gefnogi mentrau i leihau allyriadau $CO_2$e o gwmpas 1, 2 a 3, gan gynnwys dargyfeirio mwy o wastraff o safleoedd tirlenwi, gwelliant ym mioamrywiaeth yr ystâd, a datblygu gweithdrefnau caffael.

Mae'r **Grŵp Adeiladau a Bioamrywiaeth** yn atebol i'r grŵp Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu amcanion a thargedau, sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a gwirfoddol, deall a chyfathrebu dogfennau technegol, drafftio dogfennau eraill fel ymatebion archwilio, datblygu a chyflawni prosiect.

# Cefnogaeth ac Ymgynghori

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn, ac i sicrhau ei fod yn gadarn ac yn effeithiol, ymgynghorwyd â'r rhanddeiliaid canlynol:

Llywodraeth Cymru

Partneriaeth bioamrywiaeth

Yr Ymddiriedolaeth Natur

Ymddiriedolaeth Natur Vincient

Eco Dyfi

Staff BIAP

# Adolygiad o Rywogaethau a Chynefinoedd

Yn 2023 comisiynodd BIAP arolygon bwrdd gwaith a cherdded ar gyfer safleoedd ysbytai o fewn ei reolaeth i werthuso cynefinoedd, a'u cyflwr, rhywogaethau, presenoldeb neu absenoldeb. Bu'r astudiaethau hefyd yn edrych ar gofnodion hanesyddol o fewn neu gerllaw i'r safleoedd, safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur o fewn 2km i'r safle, a chysylltedd â chyd-destun ehangach y dirwedd o fewn radiws o 500m, gan nodi nodweddion ecolegol fel cyrsiau dŵr a choetiroedd.

Er bod sawl cynefin a rhywogaeth adran 7 wedi'u nodi, dangosodd yr arolygon bwysigrwydd y bwrdd iechyd i gynefinoedd camau cerrig gan ddarparu cyswllt â'r dirwedd ehangach. Nid yw man gwyrdd BIAP yn gynefin cadwraeth gradd uchel, fel dolydd blodau gwyllt cyfoethog eu rhywogaethau, ond mae'n gweithredu i hwyluso symud rhywogaethau o amgylch cefn gwlad i dir cadwraeth gradd uwch.

Mae amcanion a thargedau bioamrywiaeth wedi'u llywio ac yn seiliedig ar yr arolygon hyn.

## Amcanion

- Ystyried, a gwella bioamrywiaeth yn ein holl weithrediadau a darparu gwasanaethau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn lleol ac yn fyd-eang.
- Darparu arweinyddiaeth a llywodraethu da ar draws y sefydliad ar gyfer rheoli bioamrywiaeth.
- Hyrwyddo pwysigrwydd bioamrywiaeth, a'r rôl y mae'n ei chwarae mewn gwasanaethau ecosystem, a'n hiechyd a'n lles.

## Amcanion

- Cynnal polisi'r amgylchedd a sicrhau bod cyfeiriad at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth.
- Cynnal arolygon bioamrywiaeth ar gyfer pob safle ysbyty.
- Bod effeithiau ac agweddau bioamrywiaeth yn cael eu hystyried fel rhan o system rheoli amgylcheddol y bwrdd iechyd.
- Bod deddfwriaeth/rhwymedigaethau a diweddariadau perthnasol yn cael eu holrhain fel rhan o'r system rheoli amgylcheddol.
- Datblygu, cynnal a chyflwyno cynlluniau cynnal a chadw tir penodol i'r safle, gan sicrhau’r ddarpariaeth ar gyfer gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau.
- Deall effaith bioamrywiaeth unrhyw waith cyfalaf ac ystyried dewisiadau eraill lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
- Ystyried effaith deunyddiau adeiladu a dewis ddeunyddiau o ffynonellau a reolir yn dda.
- Sicrhau y glynir wrth ddogfennau contractwyr a bod pob contractwr wedi'i hyfforddi'n briodol i leihau niwed i'r amgylchedd.
- Cydymffurfio ag unrhyw faterion caniatâd cynllunio sy'n ymwneud â dŵr, cynefinoedd a rheoli rhywogaethau.
- Ar gyfer unrhyw gynllun cyfalaf mawr a ariennir gan Lywodraeth Cymru, bydd yn ceisio sicrhau BREEAM yn 'dda iawn' ar gyfer cynlluniau adnewyddu ac yn 'rhagorol' ar gyfer adeiladu o'r newydd a chydymffurfio â chymal LE05 (effeithiau hirdymor ar fioamrywiaeth.
- Dylai cynlluniau cyfalaf mawr a ariennir gan Lywodraeth Cymru, pan fo'n briodol a phryd y gallai maint neu effaith cynllun fod yn niweidiol i'r amgylchedd, ymgynghori â sefydliadau bywyd gwyllt lleol i gryfhau'r ddarpariaeth o fioamrywiaeth a gwelliannau ecosystem.
- Sicrhau bod diogelu a gwella bioamrywiaeth yn ystyriaeth wrth werthuso ac asesu prosiectau gwella cyfalaf.
- Ystyried dewis arall yn llai niweidiol i sylweddau'r amgylchedd fel rhan o werthusiadau Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).
- Cynnal a chadw arolygon coed ar gyfer safleoedd ysbytai.
- Sicrhau bod cynrychiolydd amgylcheddol a chynaliadwyedd yn eistedd ar Grŵp Rheoli Cyfalaf y Bwrdd Iechyd.
- Ar gyfer pob coeden a gwympir ar dir BIAP mae o leiaf 2 goeden leol frodorol yn cael eu plannu mewn mannau priodol.
- Gwella potensial bioamrywiaeth ar draws pob safle sy'n eiddo iddo.

- Cynnal tystiolaeth ddogfennol o gynnydd a chyhoeddi yn unol â dyletswydd bioamrywiaeth adran 6.

# Crynodeb

I gydnabod y rôl y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae yn ein bywydau bob dydd, y cyfraniad sylweddol y mae'n ei chwarae wrth ddal carbon a'r frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd yn ogystal â'r gwerth cynhenid i fywyd gwyllt, bydd BIAP yn integreiddio ei gynlluniau bioamrywiaeth ledled y sefydliad, yn parhau i wella ei 'seilwaith gwyrdd', tra hefyd yn integreiddio gwasanaethau cleifion i helpu pawb i gael mynediad i'r mannau hyn. Byddwn yn ceisio gwerthuso a gwella ein cynllun bioamrywiaeth yn barhaus yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael, ar amlder yn unol â deddfwriaeth.

Yn y blynyddoedd i ddod, bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu prosiectau cadwraeth ymarferol, yn seiliedig ar arolygon bioamrywiaeth, i wasanaethu bywyd gwyllt lleol yn well fel cynefinoedd carreg gamu, cyfathrebu â staff i gynyddu addysg ac ymwybyddiaeth yn y gobaith y bydd unigolion yn parhau i wneud gwaith cadwraeth da yn eu bywydau personol, ac yn gweithio gyda sefydliadau partner i ymestyn ein hunain ymhellach.

Rydyn ni gyd yn elwa o amgylchedd iach; mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth ei adfer a'i gynnal.





# Cyfeiriadau:

Keping Ma. Kunming-Montreal Global Biodiversity Framework: An important global agenda for biodiversity conservation[J]. Biodiv Sci, 2023, 31(4): 23133.